




Amcan Llesiant 9

Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

Canlyniadau arolwg Ymdeimlad o Gymuned wedi cynyddu yn Sir Gaerfyrddin o 47.7% i 51.6%

Mae'r 'Ymdeimlad o Gymuned' yn deillio o dri chwestiwn; Mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol; Mae pobl yn yr ardal sy'n dod o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac mae pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch'.



Er gwaethaf gwell canlyniad, rydym yn disgyn o'r 13eg safle i'r 14eg safle yng Nghymru.

Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn cynyddu'r risg o ddirywio'n wybyddol, gydag un astudiaeth yn dod i'r casgliad bod pobl unig 64% yn fwy tebygol o ddatblygu dementia clinigol.
- Mae unigrwydd ymhlith pobl ifanc yn cynyddu'r tebygolrwydd o iechyd corfforol a meddyliol gwael, o droseddu, ac o gael llai o gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.
- Yn ogystal â chael effaith ar leihau'r risg o farwolaeth gynnar a salwch, mae cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol hefyd yn helpu unigolion i wella pan fyddant yn sâl.

Mesur Llwyddiant



76.1% o bobl yn teimlo'n ddiogel

7fed uchaf yng Nghymru

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru



Egluro'r Canlyniadau

- Mae canran cyfranogwyr [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) sy'n teimlo'n ddiogel wedi gostwng o **78.7%** i **76.1%** ond yn dal i fod yn 7fed safle. Deilliodd y canlyniad hwn o bedwar cwestiwn; pobl yn teimlo'n ddiogel gartref, cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio yn y tywyllwch a fydd ar gael maes o law.
- Yn ôl [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) 2019, roedd **51.6%** o'r cyfranogwyr yn teimlo bod ganddynt 'Ymdeimlad o Gymuned', ac mae hwn yn welliant o 47.7% y flwyddyn flaenorol. Roedd y canlyniad hwn yn deillio o dri chwestiwn; Pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol; Mae pobl yn yr ardal sy'n dod o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac mae pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch'. Mae'r manylion ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn ar lefel Awdurdod Leol heb gael eu cyhoeddi hyd yn hyn. Er gwaethaf gwell canlyniad, rydym wedi symud o'r 13eg safle i'r 14eg safle yng Nghymru.

Y cynnydd a wnaed

- ⊙ Rydym wedi parhau i ddatblygu a gwella sut mae Gwasanaethau Plant yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi teuluoedd, megis gwefan newydd y [Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd](#) a gwasanaeth Cyfeirlyfr Gwasanaethau Dewis sy'n dal i gael ei hyrwyddo.
- ⊙ Rydym wedi cefnogi egwyddorion Cynlluniau Cyflawni Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol:-
 - Helpu Rhwydwaith Tenantiaid Llanelli i drefnu digwyddiad amlddiwylliannol
 - Helpu mewnfwddwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau lletyol yn ystod y broses integreiddio
 - Helpu cymunedau i atal gelyniaeth ac eithafiaeth
- ⊙ Datblygwyd rhagor ar drefniadau diogelu yn Sir Gaerfyrddin i sicrhau bod trafodaethau ystyrion gydag oedolion sydd mewn perygl yn digwydd mor gynnar â phosibl ac yn parhau hyd nes y ceir y canlyniadau priodol.
- ⊙ Er mwyn cefnogi Strategaeth Troseddau Gwledig yr Heddlu, cafodd Bwrdd Troseddau Gwledig newydd ei ffurfio a oedd yn annog gwell rhannu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth rhwng cymunedau a phartneriaid gwledig.
- ⊙ Cafodd menter newydd "Gofyn am Angela" ei lansio mewn partneriaeth â'r Heddlu a'r adran drwyddedu, sy'n galluogi cwsmeriaid mewn safleoedd trwyddedig a allai fod yn teimlo dan fygythiad neu'n anniogel ar noson allan, i gael cymorth drwy fynd at y bar a "Gofyn am Angela".
- ⊙ Rydym yn dal i gyllido ein prosiectau Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol drwy atafaelu enillion troseddau yn dilyn gweithgarwch gorfodi. Mae'r arian hwn wedi cyllido Parthau Dim Galw Heb Wahoddiad newydd, gosod unedau *True Call* i ddefnyddwyr agored i niwed a lansio cynllun Masnachwyr Cymeradwy Prynu â Hyder, gan sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi a'u cymunedau.



Mae prosiect y Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol yn helpu i ad-dalu rhai o'r colledion mae defnyddwyr yn eu gwneud



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol
dros Ddiogelwch Cymunedol
Y Cyng. Cefin Campbell



Cliciwch yma i gael gweld ein [cynnydd manwl](#)
o ran yr amcan hwn.